Bywgraffiad o Maria Jane Williams, Aberpergwm, y mae ei sylwadau ar y tywydd wedi eu cofnodi yn Nyddiadur Llên Natur ar y wefan hon.

**WILLIAMS, Maria Jane (Llinos; 1795-1873)**
**Cantores a chasglydd caneuon gwerin**
Roedd Maria Jane Williams, a aned ym mhlasty Aberpergwm (Glyn-nedd), yn delynores ac yn gitarydd ond yn,arbennig o adnabyddus fel cantores, ac am hynny yr enillodd yr enw Llinos. Roedd yn gyfeillcs i Arglwyddes Llanover (Augusta Hall) ac yn gysylltiedig a'r gymdeithas ddiwylliannol Gymrcig, Cymreigyddion y Fenni (gw. Cymreigyddion). Daeth ei chartref yn gyrchfan i selogion y 'Dadeni Celtaidd'. Bu'n astudio ac yn casglu caneuon gwerin a chyhoeddodd *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* (1844) sydd, er gwaethaf bcirniadacth ddiweddarach, yn parhau'n gyfraniad pwysig i ysgolheictod cerddoriaeth Gymreig draddodiadol.

O Davies J., Baines, M., Jenkins, N., a Lynch, P.L. (2008): Gwyddoniadur Cymru (Yr Academi Gymreig)